# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Mawrth 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drefniadau sy'n bodoli yng Nghymru i gleifion gael rhwydd hynt i weld eu cofnodion meddygol ac a oes cynlluniau i newid y trefniadau hyn. (WAQ23466)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu rôl Parameddygon. (WAQ23470)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** I ba raddau y mae'r Gweinidog wedi llwyddo i leihau rhestrau aros. (WAQ23480)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa rai o bolisïau'r Gweinidog, dros y 4 mlynedd diwethaf, sydd wedi llwyddo i gyflawni eu hamcanion. (WAQ23481)

**Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynigion yn adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg ar reoli rheoliadau mynediad a gwasanaethau fferyllol adwerthol yn y DU. (WAQ23482)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Beth sydd wedi'i wneud ers cyhoeddiad y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2002 i gyflwyno strategaeth genedlaethol gyntaf yr UE mewn perthynas â Gofal Llid y Cymalau. (WAQ23483)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf ar nifer y gwelyau sy'n cael eu blocio yn ardal Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. (WAQ232484)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf ar yr hyn a wnaed i ddatblygu'r cynllun diogelwch rhag tân ac i gael gwared ag asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd. (WAQ23485)

**Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa fesurau sydd yn eu lle i ganiatáu i fferyllwyr gyfrannu at waith timau gofal iechyd sylfaenol. (WAQ23486)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Ar gyfartaledd, am ba mor hir y bydd yn rhaid i glaf yng Nghymru aros mewn adran Damweiniau ac Achosion Brys cyn cael mynd i adran arall. (WAQ23487)

**Geraint Davies (Rhondda);** Pa gamau penodol y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i weithredu Datganiad Munich ar Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwaith Ymwelwyr Iechyd (2000). (WAQ23488)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am barodrwydd gwasanaethau ein hysbytai i ymateb i argyfwng mawr. (WAQ23489)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiad diweddar y Swyddfa Masnachu Teg ar reoleiddio contractau fferyllol. (WAQ23490)

**Geraint Davies (Rhondda);** Pa ystyriaethau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i ddarparu benthyciadau i fyfyrwyr nyrsio yng Nghymru cyn iddynt gofrestru. (WAQ23504)

**Geraint Davies (Rhondda);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i weithredu Datganiad Munich ar Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwaith Ymwelwyr Iechyd. (WAQ23505)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o feddygon a gyflogwyd gan y GIG yng Nghymru bob blwyddyn er 1997. (WAQ23508)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o nyrsys a gyflogwyd gan y GIG yng Nghymru bob blwyddyn er 1997. (WAQ23509)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o weinyddwyr a gyflogwyd gan y GIG yng Nghymru bob blwyddyn er 1997. (WAQ23510)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddifa hwyaid cochion yng Nghymru. (WAQ23467)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif o nifer yr hwyaid cochion sydd yng Nghymru. (WAQ23468)

**Alun Cairns (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei hymwneud hi â'r adolygiad o Bolisi H8 yng Nghynllun Datblygu Unedol arfaethedig Rhondda Cynon Taf. (WAQ23491)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth oedd lefel y buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru ym mhob un o’r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ23469)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i alluogi ffonau symudol y drydedd genhedlaeth i gyfathrebu’n llawn, a hynny’n fuan, ym mhob rhan o Gymru. (WAQ23497)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru’r polisïau o fewn ei faes cyfrifoldeb sydd wedi gwella ansawdd bywyd pobl Delyn. (WAQ23498)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog restru’r llwyddiannau polisi y mae wedi’u cael yn Nelyn. (WAQ23499)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gydag Awdurdod Twristiaeth Prydain ynghylch marchnata Cymru. (WAQ23501)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pam na chafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei gynrychioli yn y gynhadledd ar dwristiaeth a drefnwyd gan Awdurdod Twristiaeth Prydain y llynedd. (WAQ23502)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian y gwnaeth Awdurdod Twristiaeth Prydain ei wario ar farchnata Cymru dramor y llynedd. (WAQ23503)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm yr arian cyhoeddus a ddyrannwyd i ganolfan alwadau Elev8 yn Rhydaman hyd yn hyn yn ogystal ag unrhyw arian cyhoeddus a gaiff ei ddyrannu neu’i ddefnyddio yn y dyfodol agos. (WAQ23507)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyrannu talebau i dalu costau ymweliadau addysgol gan ysgolion yng Nghymru. (WAQ23471)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddosbarthu deunydd darllen yr Undebau Llafur ar berthnasau diwydiannol, ynghyd â gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, o fewn ysgolion. (WAQ23472)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drefniadau sy'n bodoli i gyllido myfyrwyr sydd ar gyrsiau hyfforddi athrawon mewn sefydliadau addysg bellach. (WAQ23473)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i fonitro nifer yr achosion cyfreithiol a ddygir yn erbyn Awdurdodau Addysg Lleol. (WAQ23474)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig ar gyfer plant sy'n hollol fyddar ledled Cymru. (WAQ23475)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gefnogi hawliau disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. (WAQ23476)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog roi ei barn hi ar ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion yng Nghymru. (WAQ23477)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud I ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer addysgofal cyfrwng Cymraeg amser llawn i blant dan 3 oed gan bartneriaethau difasnachol. (WAQ23478) **W**

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i ddarganfod lefel y galw am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3 oed. (WAQ23479) **W**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod enwau Steve Martin, Richard Hirst, Paul Humpherston a Linda Bloomfield yn ymddangos yn adroddiad Bentley Jennison. (WAQ23492)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Bwrdd ELWa, un ai fel unigolion neu fel Bwrdd cyflawn, parthed prosiect y Ffatri Bop. (WAQ23500)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Lywodraeth Agored*

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Ydy'r ffigurau yn dangos bod hiliaeth ar drai neu ar gynnydd yng Ngogledd Cymru. (WAQ23493)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Beth y mae eich adran chi yn ei wneud i gynyddu'r ymwybyddiaeth o wahanol leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. (WAQ23494)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae'n ei

wneud i fynd i'r afael â hiliaeth yng Ngogledd Cymru. (WAQ23495)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau pellach sydd eu hangen i fynd i'r afael â hiliaeth yng Ngogledd Cymru. (WAQ23496)